



## Digwyddiadau CALU yn 2009

### Yn y rhifyn hwn:

Gwsberis	2
Biochar	2
Awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau CALU	3
Ydi gwenyn yn amddiffyn cnydau rhag lindys?	3
Toeau gwyrdd	3
Digwyddiadau i Ddod	4
Ffeithiau am CALU	4

Mae tymor blynyddol digwyddiadau CALU yn mynd o 1 Mehefin tan 31 Mai bob blwyddyn. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi bod yn brysur yn cyfarfod â rhai a all gynnal dyddiau agored i ni a llunio ein rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2009.

Mae gennym dair o 'Ffermydd Datblygu' a gyllidir drwy Farming Connect, pob un yn cynnal dau ddigwyddiad y flwyddyn i ni. Mae ein Ffermydd Datblygu'n gysylltiedig â chanolfannau addysgol / ymchwil a gallant roi'r cyngor diweddaraf ar wahanol bynciau. Ein Ffermydd Datblygu yw: **Coleg**

**Garddwriaeth Cymru yn** Llaneurgain; **Canolfan Ymchwil Henfaes** ym Mhrifysgol Bangor a **Plas Gogerddan**, yn IBERS Aberystwyth  
Bydd y digwyddiad cyntaf eleni yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru yn edrych ar strategaethau rheoli ar gyfer plâu ac afiechydon mewn systemau cynhyrchu garddwriaethol. Yn yr ail ddigwyddiad edrychir ar faterion yn ymwneud ag edrych ar ôl pridd – er enghraifft, sut i gynnal profion pridd syml a sut i ddehongli'r canlyniadau a gweithredu arnynt. Bryd hynny hefyd edrychir ar ddefnyddio mawn

mewn garddwriaeth ac ystyrir manteision ac anfanteision gwahanol bethau y gellir eu defnyddio yn ei le.  
Yn ogystal â'r Ffermydd Datblygu, mae Farming Connect hefyd yn talu am amrywiaeth o weithdai a dyddiau agored mewn safleoedd masnachol ar hyd a lled Cymru. Bydd y materion a gaiff sylw yn y rhain yn cynnwys: cynhyrchu tyrcwn; sefydlu coedlannau a gofalu amdanynt; sicrhau ansawdd mewn garddwriaeth; a sefydlu gwinllannoedd a gofalu amdanynt.

Cyhoeddir gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau hyn ar

### CALU's subject areas:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

## Garddio Masnachol yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru

Cymerodd Phil Handley ofal dros arddio masnachol yn y Coleg ym Medi 2008. Yr her sy'n ei wynebu yw cynyddu amrywiaeth y cnydau a dyfir a sefydlu busnes ffrwythau a llyisiau sy'n talu ei ffordd. Mae'r llain gynhyrchu ychydig dros hecтар o faint ac mae'n cynnwys: chwech o dwnelau plastig; gwelyau ffrwythau a llyisiau; a pherllan sydd yno ers cryn amser. Mae Phil hefyd yn cael defnyddio tŷ gwydr mawr a ddefnyddir i gynhyrchu cnydau gaeaf ac ar gyfer meithrin hadau a thoriadau. Gyda'r pridd lôm clai gellir tyfu amrywiaeth o gnydau ar y safle.

Cynhaliwyd un o ddyddiau agored CALU yn y Coleg Garddwriaeth ar 18 Mawrth 2009. Dechreuodd yr

achlysur gyda thaith o amgylch yr ardd fasnach, yn cynnwys y twnelau plastig. Yn y prynhawn cafwyd sesiwn ar gynllunio busnes a chyfleoedd i gael cyllid.

Newydd ddechrau mae Phil ar hyn o bryd ond mae'n obeithiol y bydd y fenter yn llwyddo. Byddwn yn dilyn hynt Phil dros y misoedd i ddod. Cynhelir dau ddigwyddiad pellach yn y Coleg Garddwriaeth yn ystod 2009 ac yn y rhain fe geir y wybodaeth ddiweddaraf sut mae Fferm Phil yn dod ymlaen.

## Gwsberis

### OEDECH CHI'N

#### GWYBOD...

Bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o 'Cynllun Gweithredu Bio Ynni I Gymru' ar gyfer ymgynghori. Ewch I [www.wales.gov.uk/consultations](http://www.wales.gov.uk/consultations) I gael mwy o wybodaeth. Y dyddiadau cau am sylwadau yw 22 Mai.

Mae gwsberis yn gnwd traddodiadol sydd wedi dod yn fwy poblogaidd yn ddiweddar. Mae'r aeron yn barod yng Ngorffennaf a hwy yw'r olaf i aeddfedu ar y llwyni. Mae hyn yn golygu y gall y tymor casglu bara am fis neu fwy. Gellir casglu'r aeron fel cnwd ar ei ben ei hun neu eu codi'n ddetholus yn barod ar gyfer marchnad dechrau'r tymor.

Mae gwsberis yn adnabyddus iawn i'r cyhoedd ac yn addas at sawl pwrpas yn y gegin. Mae mathau gwyrdd i'w coginio, megis 'Invicta' a 'Careless', yn hawdd iawn eu tyfu ac yn cynhyrchu'n dda. Mae mathau coch yn llai cyffredin, ond mae iddynt werth fel newyddbethau a gallant fod yn gostus. Yn Henfaes, mae CALU wedi plannu dau fath o wsberis, sef 'Whinham's Industry', sy'n addas ar



gyfer pwddin, a'r 'Careless' poblogaidd.

## Biochar

Mae pridd yn un o'r storffeydd mwyaf o garbon ar y tir. Caiff carbon hefyd ei storio mewn coed a llystyfiant. Fel rheol, pan losgir y rhain, rhyddheir y carbon i'r atmosffer.

Cynhyrchir 'biochar' trwy losgi coed (neu fïomas arall) mewn amgylchedd reoledig sydd ag ocsigen cyfyngedig. Trwy hyn, mae'r rhan fwyaf o'r carbon yn aros yn y golosg, yn hytrach na chael ei rhyddhau i'r atmosffer.

Yn syml, biochar yw'r enw a roddir ar ologsg pan ddefnyddir ef mewn systemau cynhyrchu amaethyddol. Pan ychwanegir ef at y pridd, caiff y carbon yn y biochar ei gloi, efallai am filoedd o flynyddoedd. Ceir hefyd dystiolaeth fod y biochar yn cael effeithiau buddiol ar gynhyrchiant planhigion. Fodd bynnag, mewn gwledydd trofannol y cafwyd y canlyniadau hyn, ac nid ydynt wedi'u profi dan amodau Cymru.

Mae arbrofion yn Awstralia, UDA a'r Almaen yn cael canlyniadau cadarnhaol lle mae biochar wedi'i ymgorffori mewn priddoedd gwael; mae'r gronynnau crwybraidd yn gweithredu fel cronfa ar gyfer gwlybanaeth a gwrteithiau. Yn yr Almaen, buwyd yn troi carthion yn fiochar; mae'r broses hon yn torri'r costau tanwydd a'r carbon sydd eu hangen i drin carthion, a disgrifir y broses fel un 'garbon-negyddol'.

Yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes, sef canolfan CALU Bangor, mae'r profion gwyddonol cyntaf wedi cychwyn. Bydd y profion yn para am dair blynedd ac yn cloriannu effeithiau biochar ar gynnyrch cnydau, yn ogystal ag ar nodweddion ffisegol a chemegol y pridd. Arddangosir y canlyniadau terfynol mewn diwrnod agored yn Henfaes yr haf hwn, dan nawdd Cyswllt Ffermio. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01248 680450



### OEDECH CHI'N

GWYBOD... Bod y strategaeth newydd ar gyfer coetiroedd wedi cael ei chyhoeddi. Mae'r ddogfen iawn a fersiwn gryno ar gael ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth ([www.forestry.gov.uk](http://www.forestry.gov.uk))

## Awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau CALU yn y dyfodol

Mae CALU'n awr yn cynllunio digwyddiadau a gweithdai ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gennych. Mae'r rhestr isod yn rhoi blas i chi o'r amrywiaeth eang o faterion y rhoddyd sylw iddynt yn y gorffennol. Os hoffech i ni ail-gynnal unrhyw rai o'r digwyddiadau hyn, rhowch wybod i ni.

### Garddwriaeth:

- Tocio ffrwythau meddal
- Impio coed ffrwythau
- Rheoli tai gwyrdd
- Rheoli dŵr
- Cynhyrchu perlysiâu

- Dulliau amlhau
- Ychwanegu gwerth at stoc planhigfeydd
- Cynhyrchu a rheoli stoc wydn mewn planhi feydd

### Bio-ynni

- Miscanthus a chnydau ynni eraill ar ddyddiau agored ar ffermydd
- Seminarau ar bio-ynni
- Gweithdai archwilio ynni ar ffermydd

### Da byw

- Materion milfeddygol ar gynhyrchu cig gafr
- Gweithdai ar gadw gwenyn
- Marchnata nwyddau cig moch

- Iechyd a lles mewn cynhyrchu geifr godro
- Tyrswm / Cywion leir

### Coetiroedd

- Ychwanegu gwerth at goed fferm
- Cynhyrchu coed tân
- Rheoli coetiroedd ar gyfer adar gêm
- Coed Nadolig

### Cnydau â'r a newydd

- Safleoedd arddangos cnydau newydd ar draws Cymru
- Opsiynau â'r a gyfer Cymru
- Cynhyrchu a phrosesu haidd noeth
- Ffermio â'r a gofynion traws-gydymffurfio

## Ydi gwenyn yn amddiffyn cnydau rhag lindys?

Mae gwenyn wedi cael digon o gyhoeddusrwydd yn ddiweddar oherwydd pryderon eu bod yn prinhaus a'r effeithiau y gall hynny eu cael ar beillio a chynhyrchu cnydau. Yn ogystal â pheillio cnydau, gall gwenwyn hefyd amddiffyn cnydau rhag plâu. Mae ymchwilyr yn yr Almaen wedi darganfod yn ddiweddar bod gwenyn yn fflapan eu hadenydd yn dychryn lindys i ffwrdd, gan achosi llai o ddifrod i ddail. Y

rheswm dros hyn efallai yw bod llawer rhywogaeth o gacwn parasitig yn dodwy eu hwyau mewn lindys. Fodd bynnag, ni all y lindys wahaniaethu rhwng cacwn sy'n hela a gwenyn diniwed. Mae'r ymchwilyr yn credu bod y lindys yn synhwyro bod y gwenyn yn agos trwy flew bychain ar eu cyrff, sy'n eu galluogi i ganfod dirgryniadau yn yr aer. Darganfu'r ymchwilyr

bod presenoldeb gwenyn wedi lleihau difrod i ddail tua 60% mewn planhigion oedd heb ffrwytho. Pan oedd planhigion wedi cynhyrchu ffrwyth, roedd y lindys yn cuddio yn y ffrwyth ac felly roedd y gwenyn yn cael



## Toeau gwyrdd

Cafodd ysgol newydd eco-gyfeillgar yn Llangefni ar Ynys Môn, sef Ysgol y Graig, ei hadeiladu gyda tho gwyrdd wedi'i gynllunio a'i gynhyrchu gan Bauder. Ceir gwahanol fathau o Doeau Gwyrdd neu Fyw yn dibynnu pa mor ddwfn yw'r pridd, faint o gynnal a chadw y maent ei angen, a math y planhigion y byddant yn eu cynnal. Mae

ganddynt lawer o fanteision hefyd: gallant fod yn safle ar gyfer cymysgfa amrywiol o fwsogl, cennau, bywlys a blodau gwyllt; mae chwilog a phryfetach wrth eu bodd gyda hwy fel rheol; maent yn inswleiddio'r ystafell o danynt, gan ei chadw'n oer yn yr haf ac yn gynnes yn y gaeaf; maent yn gweithredu fel sbwngau sy'n amsugno dŵr ac

felly'n lleihau gorlifo; ac maent yn amddiffyn deunydd gwrth-ddŵr y to rhag golau uwchfioled gan ei



OEDDECH CHI'N  
GWYBOD...

*Bod gwenyn mel yn cyfathrebu a'i gilydd trwy ddawnsio, l ddangos pa mor bell yw blodau oddi wrthynt ac l ba gyfeiriad.*

# CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes  
Prifysgol Bangor  
Abergwyngregyn  
LLANFAIRFECHAN  
LL33 0LB  
Ffôn: 01248 680 450  
Ffacs: 01248 681730  
E-bost: calu@bangor.ac.uk

[www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk)

## Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



## Digwyddiadau i Ddod

**Dydd Iau, 26 Mawrth** — Ffrwythau: Tyfu a marchnata, Fferm Nicholaston, Penmaen Gwyr, Abertawe

**Dydd Mawrth, 31 Mawrth** - Garddwriaeth: Cynhyrchu planhigfa arbenigol Horticulture—, Fferm Crug, Caernarfon

**Dydd Iau 2 Ebrill**— Ffrwythau: Tyfu a marchnata, Penlanlas, Rhydfelin, Aberystwyth

**Dydd Mawrth, 28 Ebrill**— Garddwriaeth: Siop fferm, Cae Melwr, Llanrwst, Conwy

**Dydd Mawrth 5 Mai**—Tocio Perllannau, Primrose Organics centre, Felindre

**Dydd Mercher, 6 Mai** —Cynhyrchu ffrwythau a llysiau, Pont Farm Foods, Bettws, Newtown

**Dydd Mawrth 12 Mai** —Creu gwliptiroedd—ateb I llygredd gwasgareddig? ADAS, Pwllpeiran

**Dydd Sadwrn 16 a Dydd Sul 17 Mai**— Gwyl tyddyn a gardd, Builth Wells

**Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o ddi-gwyddiadau CALU.**

## Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd


Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- Ilyfrynau gwybodaeth

CALU PARTNER:

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardalwedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Assembly Government



FARMING  
connect  
cyswllt  
FFERMIO

08456 000 813